No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Rhadfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

549 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

550 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Gynghorwyr P. Drake a E. Goodjohn

551 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

552 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

553 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) -

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Corfforaethol am Chwarter 2 (Ebrill 2022-Medi 2022). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn y Crynodeb o Adroddiad Risg Corfforaethol yn Atodiad A. Galluogodd hyn y swyddogion a'r Aelodau i adnabod ac asesu tueddiadau a natur draws-doriadol risgiau gyda'r gallu i fynd i fanylion risgiau yn ôl y gofyn.

Adroddwyd na fu unrhyw symudiad yn statws y risgiau yn ystod ail chwarter y flwyddyn. O ran y cyfeiriad, safodd yr holl risgiau ar y Gofrestr yn yr unfan dros y cyfnod.

O ran rhagweld y cyfeiriad, rhagwelwyd y byddai’r newid deddfwriaethol a diwygio llywodraeth leol a risgiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn lleihau dros amser. Rhagwelwyd y byddai’r risg breuder ariannol a ail-ddiffiniwyd o’r newydd, Prosiect Sero, diogelwch gwybodaeth, breuder y farchnad a risgiau rheoli galw oll yn cynyddu.

Parthed diogelwch gwybodaeth, byddid yn ystyried y risg honno fel rhan o drafodaeth Rhan II ar yr agenda.

Holodd y Cadeirydd, Mr. G. Chapman, a fyddai unrhyw gyfle i’r Pwyllgor dderbyn fersiwn fyrrach o’r Gofrestr Risg ar sail adrodd eithriadol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai adroddiadau cyfoesi yn y dyfodol yn cynnwys Atodiad A, tra byddai Atodiad B yn cael ei gynhyrchu fel hyperddolen yn yr adroddiad petai unrhyw Aelodau am geisio mwy o wybodaeth neu esboniad. Cytunodd y Pwyllgor i hynny.

Wedi hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sefyllfa Chwarter 2 o ran risgiau corfforaethol (Ebrill 2022 - Medi 2022) fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau (Atodiad A) yn cael ei nodi.

(2) ARGYMELL i'r Cabinet fod ail-fframio'r risg Ail-lunio i risg breuder ariannol ar y Gofrestr yn cael ei gytuno.

(3) CYFEIRIO unrhyw sylwadau eraill i’r Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 2.

(4) AR gyfer adroddiadau Cofrestr Risg yn y dyfodol, fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn diweddariad byrrach yn seiliedig ar y crynodeb yn Atodiad A, gydag Atodiad B ar gael i Aelodau trwy wefan y Cyngor.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) SICRHAU bod y Cabinet yn cael sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried sefyllfa risg Chwarter 2.

(4) Fel bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad cryno yn seiliedig ar adrodd eithriadol.

554 CHWYTHU'R CHWIBAN: CANLYNIADAU AROLWG STAFF AC ADRODDIAD BLYNYDDOL (SW/PGCD) -

Adolygodd y Cyngor ei Bolisi Chwythu'r Chwiban ("y Polisi") yn 2019 a chadarnhawyd y Polisi diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio ar 3 Chwefror, 2020.

Pwrpas allweddol y Polisi oedd dweud sut i chwythu'r chwiban, y mathau o faterion i adrodd amdanynt ac amlinellu'r warchodaeth fyddai ar gael i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban.

Yn ystod 2021/22, adroddwyd am 1 digwyddiad (o gymharu â 4 digwyddiad yn 2020/21), oedd yn is na'r cyfartaledd treigl 7-mlynedd o 3.28 y flwyddyn. O edrych yn fanylach, yr oedd digwyddiad 2021/22 y tu allan i'r Polisi a deliwyd ag ef fel cwyn. Yn ystod 2022/23 hyd yma, adroddwyd am 7 digwyddiad Chwythu'r Chwiban posib. Ni chadarnhawyd 1 digwyddiad, yr oedd 1 yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ac yr oedd 5 heb fod yn dod dan y Polisi ac fe'u hystyriwyd dan Bolisïau eraill y Cyngor megis y Polisi Cwynion.

O'r 23 digwyddiad yr adroddwyd amdanynt dros y 7 mlynedd a aeth heibio, y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau a ddangosodd y nifer isaf, 3, y Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai oedd â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, sef 9.

Ar wahân i'r Polisi ac yn ystod 2021/22, derbyniodd y Cyngor 358 o gwynion corfforaethol gan aelodau'r cyhoedd, 50 dan Reoliad Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, 1 gŵyn gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg a chyfeiriwyd 61 oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cafodd y cwynion hyn eu dadansoddi mewn Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol Blynyddol ar wahân.

Ym Mehefin 2022 lansiodd y Cyngor Hwb Codi Llais ar Staffnet. Yr oedd yr Hwb yn un pwynt mynediad i'r staff gael gwybodaeth am y Polisi ac yr oedd yn cynnwys ffurflen ar-lein oedd yn caniatáu i'r staff adrodd am faterion yn sydyn ac yn rhwydd. Cefnogwyd hyn gan wasanaeth teliffon Llinell Codi Llais cyfrinachol oedd yn ffordd gyfrinachol i staff adrodd am broblemau a phryderon oedd yn dod dan y Polisi.

Yn dilyn ymgyrch hyrwyddo fewnol yn ystod Chwarter 1 2022, cynhaliwyd arolwg staff i asesu ymwybyddiaeth y staff o'r Polisi. Defnyddiodd yr arolwg yr un math o gwestiynau â'r arolwg diwethaf a gynhaliwyd yn 2018 er mwyn cymharu. Ni chynhaliwyd arolygon yn ystod y pandemig Covid. Ymatebodd cyfanswm o 323 aelod o staff i arolwg 2022 o 21 Maes Gwasanaeth. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod angen mwy o waith hyrwyddo er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r Polisi, gyda 75% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am y Polisi, i lawr o 91% yn 2018. Gallai 68% o'r holl ymatebwyr nodi'r 10 maes allweddol o gamarfer y cyfeirir atynt yn y Polisi, gyda dim ond 1% heb allu adnabod unrhyw faes. Dangosodd hyn, er bod 25% o'r staff wedi dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r Polisi, yr oedd nifer uchel o staff yn adnabod gweithredoedd fyddai'n cael eu diffinio fel camarfer ac a oedd yn risg i'r Cyngor a'r trigolion. Dim ond 58% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn barod i adrodd am

bryderon, gostyngiad o 67% yn 2018. Lle'r oedd y staff yn ymwybodol o'r warchodaeth gyfreithiol oedd ar gael iddynt, cododd y ganran oedd yn barod i adrodd am broblemau dan y Polisi i 72%. Lle rhoddodd yr ymatebwyr resymau pam na fuasent yn barod i adrodd am ddigwyddiadau chwythu'r chwiban, daeth ofn canlyniadau posib iddynt hwy i'r amlwg fel thema glir. Yr oedd dadansoddiad llawn o ymatebion i'r arolwg yn Atodiad D i'r adroddiad.

O ganlyniad i ganlyniadau'r arolwg, byddai sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu hychwanegu at agendau cyfarfodydd y Cyfarwyddiaethau a'r Timau ledled y Cyngor, ac er mwyn helpu gyda chysondeb y neges, byddai crynodeb weithredol o'r Polisi yn cael ei roi i Reolwyr / Goruchwylwyr; byddai ymgyrch hyrwyddo fechan wedi ei thargedu yn cael ei chynnal yn y Flwyddyn Newydd i ganolbwyntio ar y warchodaeth a roddir i chwythwyr y chwiban a'r dewisiadau ar gyfer adrodd. Byddai hyn yn ychwanegol at yr ymgyrch hyrwyddo flynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r warchodaeth a roddir i chwythwyr y chwiban er mwyn gwneud y staff yn fwy parod i adrodd am broblemau.

Byddid yn cynnal arolygon staff blynyddol er mwyn olrhain cynnydd yn y maes hwn, a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Fel rhan o adolygiad y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol o'r Polisi, argymhellwyd ymdrin â'r pwyntiau a godwyd ym mharagraff 2.22 yr adroddiad a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'u cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at yr arolwg staff a'r gyfradd ymateb isel, gan ddweud y dylai'r Cyngor ystyried beth oedd y gwahaniaeth i amgylchedd gwaith cyfredol pobl o gymharu â'r hyn ydoedd yn flaenorol. Ychwanegodd fod marchnata mewnol yn un-dimensiynol iawn, yn seiliedig yn bennaf ar sgriniau trwy iDev ac e-byst, felly efallai y dymuna'r Cyngor ystyried ffurfiau eraill o gyfathrebu yn ehangach. Wrth ateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai'n awgrymu i Uwch-Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor i chwythu'r chwiban fod ar agendau cyfarfodydd Timau.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai hynny fod yn rhywbeth i'r Pwyllgor argymell yn ffurfiol i'r Prif Weithredwr. Hefyd, dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod peth o'r dystiolaeth hanesiol wedi dangos fod heriau ynghylch cael staff i ymateb i arolygon a bod hyn wedi dod allan o ymwneud â chydweithwyr o'r Undebau Llafur.

Dywedodd Mr. M. Evans fod dau ran o dair o'r staff yn adrodd am faterion chwythu'r chwiban yn uniongyrchol wrth eu rheolwyr llinell, oedd yn wahanol i'r hyn yr oedd wedi arfer ag ef. Holodd Mr. Evans tybed a oedd y Cyngor heb sylweddoli rhywbeth yng nghyswllt materion yr adroddwyd amdanynt, ond heb o raid gael eu dal, yn enwedig ynghylch ymwybyddiaeth a hyfforddi, a sut yr oedd hynny'n cael ei gyfleu gan reolwyr llinell. Atebodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod cyfarfodydd chwarterol chwythu'r chwiban yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr ledled y Cyngor er mwyn gwneud yn siŵr fod pob mater yn cael ei ddal. Ni allai'r Cyngor fyth orffwys ar ei rwyfau, a

dyna pam ei bod yn bwysig pwysleisio wrth y staff bwysigrwydd Polisi Chwythu'r Chwiban.

Soniodd Mr. Evans hefyd am dystiolaeth o ymchwilio i amheuaeth o dwyll, a theimlai ei bod yn bwysig cydnabod y gallai chwythu'r chwiban fod yn ehangach o lawer na'r hyn y dylid ei ystyried fel rhan o adolygiad yn y dyfodol. Wrth ateb, dywedodd Penaneth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod tudalen saith o'r Polisi yn rhoi peth sicrwydd am ystod y materion y gellid adrodd amdanynt. Yr oedd y Polisi hefyd yn nodi nad cymryd lle y ffyrdd o ddiogelu yr ydoedd, a bod materion eraill y dylid eu trin.

Gwnaeth y Cynghorydd Hooper sylw am y defnydd o ystadegau, gan ddweud yr hoffai wybod nifer y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg staff fesul maes gwasanaeth. Atebodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddid yn ymchwilio'n fwy manwl i'r wybodaeth ar gyfer y gwaith cyfoesi chwarterol fyddai'n nodi'r meysydd gwasanaeth hynny oedd â chyfradd ymateb isel.

Cytunodd y Cadeirydd, Mr. G. Chapman â'r Cynghorydd Hooper am y defnydd o ystadegau a chanrannau, ac felly yr oedd angen agwedd gyson, yn enwedig o ran pa faterion oedd yn dod dan Bolisi Chwythu'r Chwiban neu beth oedd yn gŵyn ac yn cael ei drin fel mater disgyblu. Dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai gwybodaeth gyfrinachol, yn y cyfnodau cynnar, yn cael ei rannu gyda hi trwy'r Rheolwr Gweithredol Cysylltiadau Cwsmeriaid. Byddai'r wybodaeth hwnnw yn cynnwys manylion am sut y byddai pob mater yn cael ei gofnodi, yn ogystal â'r rhai a nodwyd fel hysbysiad chwythu'r chwiban. Felly, ganddi hi y byddai'r penderfyniad terfynol fel Swyddog Monitro'r Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod hawl i apelio dan broses ddisgyblu'r Cyngor, ond nad oedd hawl dan y Polisi Chwythu'r Chwiban. Fodd bynnag, yr oedd hynny'n rhywbeth y gellid ei ystyried fel rhan o'r adolygiad fyddai'n cael ei gynnal.

Holodd y Cadeirydd a oedd yr arolwg staff wedi ei anfon allan i'r holl ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ei bod yn bwysig cydnabod nad oedd pob ysgol yn y Fro wedi mabwysiadau Polisi Chwythu Chwiban y Cyngor, a bod rhai wedi mabwysiadu eu polisi eu hunain. Gofynnwyd i'r staff Addysg am wybodaeth am yr ysgolion hynny oedd wedi mabwysiadu Polisi'r Cyngor, a byddai hyn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio wedi iddo gael ei roi at ei gilydd.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol mewn perthynas â hyrwyddo'r Polisi, y digwyddiadau chwythu'r chwiban a adroddir a chanlyniad yr Arolwg arfaethedig ar gyfer 2023/24.

(3) BOD y meysydd arfaethedig ar gyfer adolygu'r Polisi presennol fel y manylir ym mharagraff 2.22 o'r adroddiad yn cael eu nodi a'u cymeradwyo a'u cyfeirio at y Cabinet i'w ystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi.

(4) BOD gofyn i'r Prif Weithredwr sicrhau bod chwythu'r chwiban yn cael ei roi ar holl agendau cyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth, cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth a chyfarfodydd Tîm.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi a wneir gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

(4) Cynnal a chynyddu ymwybyddiaeth o Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

555 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD SICRWYDD AC ASESIAD RISG (SAR) CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 AC ADRODDIAD ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR BARODRWYDD CARBON YN Y SECTOR CYHOEDDUS AR GYFER SERO NET ERBYN 2030 (CAC) -

Yr oedd yr adroddiad (yn Atodiad A) yn crynhoi canfyddiadau Archwilio Cymru o adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg y Cyngor am y cyfnod archwilio 2021/22.

Gan ganolbwyntio ar sefyllfa ariannol y Cyngor, yr oedd gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gan gynnwys trefniadau hunanasesu) a chynlluniau lleihau carbon, yr oedd yr adolygiad wedi helpu i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu a fydd angen mwy o waith archwilio yn y blynyddoedd i ddod o ran risgiau'r Cyngor. Yr oedd yr adolygiad wedi helpu hefyd i asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran cymryd camau i gwrdd â'i Amcanion Lles.

Daeth yr Adolygiad i'r casgliadau isod

- Bod y Cyngor yn dal mewn sefyllfa dda i gynnal ei wytnwch ariannol, wedi cynyddu'r arian wrth gefn yr oedd modd ei ddefnyddio, ond fod angen iddo bennu sut y byddai'n ateb y bwlch cyllidebol dros y tymor canol;
- Bod y Cyngor yn cymryd y camau priodol i ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau i gwrdd â her cyrraedd allyriadau carbon net sero erbyn 2030 ond ei fod yn cydnabod fod angen mwy o waith o ran cael adnoddau ar gyfer ei gynlluniau.

Gwnaed un argymhelliad:

> A1: Er mwyn cwrdd â'i uchelgais net sero, mae'n rhaid i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod wedi asio gyda'i Gyngor Ariannol Tymor Canol.

Yn unol ag ymrwymiad i i gynnal rhaglen tymor-hir o waith ar newid hinsawdd, cyhoeddodd archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 adroddiad ar Barodrwydd Carbon y Sector Cyhoeddus am  Net Sero erbyn 2030, a atodwyd i Atodiad B yr adroddiad. Gyda gwybodaeth gan 48 o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru) i gwblhau galwad am dystiolaeth, mae'r adroddiad yn gosod allan bum galwad am weithredu i fynd i'r afael â'r rhwystrau cyffredin i ddadgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Er na wnaed argymhellion penodol, anogwyd cyrff y sector cyhoeddus i ystyried yr adroddiad ac i ddatgan yn gyhoeddus sut y bwriadant ymateb i'r galwadau am weithredu.

Yr oedd tîm Rhaglen Prosiect Sero y Cyngor wedi adolygu'r adroddiad a'r canfyddiadau. Mewn ymateb i'r argymhelliad a wnaed yn Atodiad A, yr oedd gwaith ar y gweill i gostio cynlluniau cyflwyno unigol yn ogystal â datblygu'r data a'r mewnwelediad oedd ei angen i helpu i ddeall y costau ariannol cyffredinol gan gynnwys fforddiadwyedd i gyflwyno ar y cynllun gweithredu Prosiect Sero. Byddai'r gwaith hwn yn cymryd amser i'w gwblhau, o ystyried yr angen i ystyried hefyd ffynonellau posib o gyllid / ffrydiau ariannol i sicrhau bod y Cyngor yn dwyn i mewn y cyllid oedd ei angen ochr yn ochr â'i gyllidebau refeniw a chyfalaf er mwyn cyflwyno'r Cynllun Her Prosiect Sero dros y tymor canol i'r tymor hir. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i ymdrin ag argymhelliad uchod Archwilio Cymru, i gostio yn llawn y cynllun gweithredu Prosiect Sero a sicrhau ei fod wedi asio gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.  Byddai'r Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yng nghyswllt y gwaith hwn yn y man ac yn nodi cyfeiriadau at gyflwyno'r ymrwymiad corfforaethol hwn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a adolygwyd yn ddiweddar.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio nodi canfyddiadau adolygiad Asesu Sicrwydd a Risg Archwilio Cymru o Gyngor Bro Morgannwg am y flwyddyn archwilio 2021/22 ac wedi ei ystyried, cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol  ac Adnoddau gydag unrhyw argymhellion / sylwadau gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio wedyn at y Cabinet iddynt edrych drostynt.

Gofynnwyd hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio adolygu cynnwys adroddiad Astudiaeth Genedlaethol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus am Garbon Net Sero erbyn 2030, oedd wedi ei atodi, ac ymateb y Cyngor, yna, wedi ei ystyried, i gyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu  Perfformiad Corfforaethol  ac Adnoddau, gydag unrhyw argymhellion /sylwadau yn cael eu cyfeirio at y Cabinet wedyn i'w hystyried, a chadarnhau'r camau arfaethedig i gwrdd â'r argymhellion a'r Astudiaeth Genedlaethol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at Net Sero a bod llawer o sôn am gostau. Un peth yr oedd wedi disgwyl ei weld oedd mwy yng nghyswllt gwleidyddiaeth ac

annog pobl i newid eu hymddygiad, gan y byddai effaith fawr ar ddulliau o fyw. Yr oedd angen i'r Cyngor felly fod yn ddewr o ran sut i ateb heriau'r dyfodol Atebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod yr astudiaeth genedlaethol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru wedi rhoi mewnwelediadau buddiol i arweinyddiaeth gymunedol a hefyd i agenda arweinyddiaeth fewnol yn y Cyngor. Yr oedd Prosiect Sero yn fwy na mater o ddadgarboneiddio technegol a lleihau'r defnydd o ynni, ond yr oedd hefyd yn amlinellu ymateb y Cyngor o ran arweinyddiaeth a newid ymddygiad yn y set gyntaf o heriau yn y Cynllun. Yr oedd y rhain wrth ganol cynlluniau'r Cyngor a byddant yn wastad yn rhan allweddol o wneud penderfyniadau.

Dywedodd y Cynghorydd J. Protheroe er mwyn cael Net Sero, mai'r agwedd bwysicaf i'r Cyngor oedd arweinyddiaeth. Nid oedd newid hinsawdd yn mynd i aros am i heriau ariannol y Cyngor i wella, felly roedd arweinyddiaeth a phenderfyniadau yn fater o gael pob un o weithwyr y Cyngor yn newid eu hymddygiad, a'r hyn y mae'r Cyngor yn gwario ei arian arno. Aeth y Cynghorydd Protheroe ymlaen i holi sut y buasai'r Cyngor yn dal data ac yn monitro / meincnodi cynnydd, gan ychwanegu fod yr economi gylchol yn lle da i ddechrau. Atebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ei fod yn derbyn nad oedd mesur llwyddiant yn wyddor fanwl, ond ei fod yn edrych ar sut y gellid cyflwyno'r wybodaeth. Yr oedd y ffordd ymlaen o ran allyriadau yn weddol syml oherwydd bod gan y Cyngor nifer o fesurau ar waith eisoes; er enghraifft, lefel yr allyriadau o'i fflyd o gerbydau. Y gadwyn gyflenwi a sut mae'r Cyngor yn pwrcasu nwyddau a gwasanaethau yw ffynhonnell y rhan fwyaf o allyriadau carbon, felly ar hyn o bryd mae fframwaith Llywodraeth Cymru yn defnyddio dangosyddion procsi am swm yr allyriadau. Yr oedd hynny ac allyriadau a gynhyrchwyd trwy rai gweithgareddau fel gofal preswyl, er enghraifft, yn rhywbeth y mae'r Cyngor yn edrych arno ar hyn o bryd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod Strategaeth Gaffael newydd y Cyngor yn canolbwyntio ar faterion fyddai'n cael eu dylunio i fod yn rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf cyn i'r Cyngor hyd yn oed fynd allan i gaffael.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr. G. Chapman, at yr hinsawdd ariannol gyfredol sy'n wynebu Cynghorau a'r heriau sy'n debyg o ddeillio o'r setliad cyllidebol a ddaw o Lywodraeth Cymru. Holodd y Cadeirydd a oedd yr heriau ariannol tymor-hir sy'n wynebu Cynghorau yn rhywbeth a ystyriodd Archwilio Cymru fel rhan o'u gwaith adolygu ac Archwilio. Yn ei ateb, dywedodd Mr. I. Phillips (Archwilio Cymru) nad rôl Archwilio Cymru oedd gosod polisi i lawr, ond fod ymgyrch genedlaethol yn digwydd i weithio tuag at set o amcanion ar gyfer 2030. Yr oedd yn cydnabod y sylwadau am y pwysau ariannol; mater oedd hyn yn y pen draw o flaenoriaethau'r Cyngor ynghylch yr hyn y mae'n gwario ei arian arno, a beth oedd yr heriau allweddol. Nid gwaith Archwilio Cymru oedd rhoi pwysau ar Gynghorau ond yr oedd yn ymwneud â'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd eu nod a'u hamcanion.

Ychwanegodd Mr. I. Phillips fod Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o adolygiadau cynaliadwyedd ariannol, ar ddiwedd y cyfnod o lymder. Cafodd Covid effaith bellach ar y gwaith hwn, oedd yn golygu y bu'n rhaid i Archwilio Cymru geisio bod yn sensitif i anghenion Cynghorau; bu oedi felly gyda gwaith archwilio, ac yr oedd Archwilio Cymru yn hynod ymwybodol o'r anawsterau oedd yn deillio o'r amryfal alwadau ariannol.

Wedi hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg Cyngor Bro Morgannwg 2021/22 yn cael ei nodi, a chyfeirio'r adroddiad i Bwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol gydag unrhyw argymhellion / sylwadau'r Pwyllgor Craffu hwnnw a gyfeiriwyd at y Cabinet wedi hynny.

(2) BOD cynnwys Adroddiad Cenedlaethol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero-Net erbyn 2030 atodedig ac ymateb y Cyngor yn cael eu nodi, a chyfeiriodd yr adroddiad at y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a Phwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol gydag unrhyw argymhellion / sylwadau a gyfeiriwyd at y Cabinet wedi hynny am eu hystyried a chymeradwyo'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhelliad a'r Astudiaeth Genedlaethol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

556 HUNANASESIAD O WYBODAETH A SGILIAU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (PGAWR) –

Yr oedd yn hanfodol sefydlu rhaglen hyfforddi a chefnogaeth barhaus i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn hyderus ac effeithiol.

Dosbarthwyd holiadur hunanasesu, seiliedig ar gyhoeddiad CIPFA "Pwyllgorau Archwilio - Canllaw Ymarferol i Awdurdodau Lleol a'r Heddlu", i'r Aelodau'r Pwyllgor er mwyn asesu sgiliau presennol, gwybodaeth a meysydd arbenigedd yr Aelodau ac i geisio nodi unrhyw fylchau neu ofynion hyfforddiant.

Dangosodd 89% o ymatebion gan Aelodau'r Pwyllgor fod eu lefel o wybodaeth a phrofiad ar draws y 10 gosodiad, fel y'u dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad, yn dda neu yn foddhaol. Y meysydd lle nodwyd nad oedd fawr o wybodaeth a phrofiad ar ei uchaf oedd Trin Cwynion a Hunanasesu Perfformiad y Cyngor.

Dengys y canlyniadau fod gan Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio sylfaen gyffredinol gadarn o wybodaeth a phrofiad ym meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn.

Yr oedd yr holiadur hefyd yn gofyn i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio nodi pa wybodaeth a sgiliau oedd ganddynt fuasai yn ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor. Dangosodd y wybodaeth a dderbyniwyd fod gwybodaeth a phrofiad ar wahanol lefelau ar draws yr holl feysydd allweddol.

Mae modd defnyddio'r wybodaeth hon yn awr fel sail i roi rhaglen o ddysgu a datblygu at ei gilydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD - BOD y wybodaeth adborth holiadur hunan-asesu yn cael ei nodi a'r meysydd dysgu a datblygu yn cael eu codi gan aelodau'r Pwyllgor pan fo angen..

Rhesymau dros benderfyniadau

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac effeithiolrwydd parhaus y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â'i gylch gorchwyl.

557 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAWR) -

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i sicrhau ei fod wedi iawn ystyried pob agwedd o'i swyddogaethau craidd, cynhyrchwyd y Blaen-Raglen Waith, a atodwyd i'r adroddiad yn Atodiad A, ac yr oedd yn asio gyda Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Cyfoeswyd y Blaen-Raglen Waith i adlewyrchu'r newidiadau oedd eu hangen i Gulch Gorchwyl y Pwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd ac i gynnwys eitemau y gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor amdanynt.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor nad oedd Datganiad Archwiliedig y Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol oedd i fod i'w cyflwyno i gyfarfod mis Hydref wedi ymddangos eto. Ni roddwyd yr eitemau hyn yn Atodiad A am nad oedd yr amserlen yn hysbys. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddid yn cynnal cyfarfod arbennig rywbryd ym mis Ionawr 2023, er mwyn ystyried Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.

Yr oedd CIPFA yn ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau wedi eu cyfoesi am rôl Pwyllgorau Archwilio, yn canolbwyntio yn bennaf ar Loegr. Gwnaed peth cyfeiriad at gyfrifoldebau Pwyllgorau Llywodraethiant ac Archwilio yng Nghymru, ond nid oedd y rhestrau gwirio oedd yn eu cefnogi yn adlewyrchu'r gofynion hyn. Awgrymwyd hefyd mai ar ddiwedd y flwyddyn y gwnaed yr asesiad. Cynigiwyd felly y dylid gohirio Hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio tan Ebrill 2023 er mwyn caniatáu amser i gyfoesi'r ddogfennaeth ac i'r ymarferiad gael ei gynnal.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r Blaen-Raglen Waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Parthed y cyfarfod oedd i fod i'w gynnal ym mis Chwefror, holodd y Pwyllgor a oedd digon o amser i ddod â'r holl fusnes i ben. Nodwyd, cyn i gyfarfod y Pwyllgor gychwyn am 6pm, y byddid yn cynnal gweithdy ar Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

(2) BOD y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 27 Chwefror 2023 yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1a2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.

558 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

559 ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILIO CYMRU: DYSGU O YMOSODIADAU SEIBER (PW) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 18) -

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i’r Aelodau am ganfyddiadau Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru oedd yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd o ymosodiadau seibr diweddar ar sefydliadau a ddioddefodd ymosodiadau o’r fath.

Nododd y Pwyllgor fod Adroddiad Archwilio Cymru yn cynnwys arddangosion wedi eu rhif dau i wyth. Yr oedd y rhain yn amlygu meysydd gwaith a heriau, felly argymhellodd y Pwyllgor y dylai’r Cyngor ddyfeisio cynllun gweithredu mewn ymateb i’r camau a godwyd gan Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y dull o liniaru'r risg diogelwch gwybodaeth gorfforaethol yn cael ei nodi.

(2) BOD cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i gwestiynau a heriau a achosir yn arddangosfeydd 2 i 8 o Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru: Dysgu o adroddiad Ymosodiadau Seiber.

(3) BOD Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru yn cael ei chyfeirio at y Cabinet am ei hystyried fel eitem Rhan II.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1,2 a 3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.